

Adleoli Tîm Clinigol Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS) a Gwasanaethau Cysylltiedig i Gleifion

O 6 Tachwedd 2023, symudodd tîm clinigol Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS) i Ganolfan Iechyd Genomig Cymru (CIGC) sydd newydd ei hagar ym mharc busnes Cardiff Edge yng Ngogledd Coryton yng Nghaerdydd. Mae'r safle hwn ychydig oddi ar Gyffordd 32 traffordd yr M4 a thua 3 milltir o'i leoliad presennol ar gampws Ysbyty Athrofaol Cymru.

Bydd cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaeth clinigol AWMGS ar gyfer apwyntiadau genetig a genomig wyneb yn wyneb, nawr yn cael yr opsiwn o fynychu gofod clinig pwrpasol a modern y CIGC. Bydd cleifion hefyd yn parhau i gael cynnig apwyntiadau dros y ffôn neu dros fideo yn unol â'u hanghenion a'u dewis unigol.

Pa wasanaethau clinigol fydd ar gael yn CIGC?

Clinigau geneteg cyffredinol

Clinigau geneteg canser

Clinigau geneteg cynenedigol

Clinigau niwrogeneteg

Pam mae tîm clinigol AWMGS yn symud?

Wrth i'r galw am wasanaethau genomig yng Nghymru barhau i gynyddu, hoffem ofalu am ein cleifion mewn adeiladau sy'n cwrdd â'r safon a ddymunir ac nid yw'r manau clinig presennol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn y Sefydliad Geneteg Feddygol yn ein galluogi i gyflawni hyn yn y tymor hir. Mae'r CIGC yn cynnig ardaloedd clinig eang, cyfforddus a llachar sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddarparu gofal rhagorol i gleifion sydd angen ein gwasanaethau genomeg. Mae'r CIGC yn ganolbwynt ar gyfer genomeg a fydd nawr yn gartref i ymchwil genomeg barhaus yng Nghymru, sy'n hanfodol i'n galluogi i barhau i wella gofal cleifion.

Beth yw'r manteision i gleifion?

- Mannau clinig pwrpasol o'r radd flaenaf – wedi'u cynllunio drwy gynnwys ac ymgynghori'n barhaus â chleifion a'r cyhoedd, ac sy'n cynnwys y technolegau a'r adnoddau diweddaraf. Mae'r uwchraddiad hwn yn addo darparu gwell gofal a phrofiad i gleifion mewn amgylchedd ddeniadol, cyfforddus sydd wedi'i gynllunio'n ofalus i helpu i ddiwallu anghenion amrywiol unigolion sy'n derbyn gofal gennym ni.
- Integreiddio gwasanaethau – bydd adleoli tîm clinigol AWMGS yn ein rhoi mewn gofod cydweithredol ochr yn ochr â phartneriaid allweddol eraill ym maes genomeg, a fydd yn ein helpu i rannu gwybodaeth, arbenigedd ac

integreiddio gwasanaethau. Bydd hyn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer arloesi, gan arwain at well gwasanaethau i gleifion nawr ac yn y dyfodol.

- Gwell cynaliadwyedd o ran gwasanaethau clinigol - wrth i'r galw ehangach ar wasanaethau clinigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru barhau i newid a datblygu, rydym am sicrhau bod cleifion yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth genomeg drwy AWMGS yn parhau i fod â gofod lle mae eu hanghenion yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r clinig newydd yn CIGC yn darparu lleoliad pwrpasol, gan roi sicrwydd i'n cleifion am barhad eu gofal a mwy o dawelwch meddwl.
- Gwell hygyrchedd - mae'r lleoliad newydd yn cynnig digon o barcio am ddim ar y safle i'r rhai sy'n cyrraedd y safle mewn cerbyd. Ar gyfer cleifion ag anghenion hygyrchedd, mae manau parcio i'r anabl ar gael, a darperir ramp er mwyn cael mynediad i'r adeilad. Yn ein derbynfa ac ardal aros cleifion, mae cyfleusterau toiled hygyrch.
- Mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cleifion - mae argaeledd y clinig newydd yn CIGC yn golygu y gallwn fod yn fwy hyblyg nag erioed wrth ddiwallu anghenion amrywiol ein cleifion wrth i ni barhau i groesawu ffyrdd arloesol o gynnal ein hapwyntiadau, gydag apwyntiadau ffôn a fideo yn cael eu cynnig ochr yn ochr â hyn, lle bo hynny'n briodol.

Os hoffech roi unrhyw adborth annibynnol ar y wybodaeth a ddarperir yma neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch adleoli ein gwasanaethau, anfonwch neges e-bost at Genomicpartnershipwales@wales.nhs.uk neu ffoniwch 07812495339, neu gallwch gysylltu â'ch tîm Llais Lleol i roi adborth a gofyn am gyngor annibynnol cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org / 02920 750112

Byddwn hefyd yn cynnal nifer o sesiynau galw heibio, wyneb ac wyneb ac ar-lein, a fydd ar agor i bob aelod o'r cyhoedd. Bydd y rhain yn rhoi cyfle i gwrdd ag aelodau o dîm clinigol AWMGS a rhannu unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych ynghylch y clinig newydd.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn gwerthuso unrhyw adborth a gawn yn barhaus ynghylch y wybodaeth a ddarperir yma. Byddwn yn ystyried hyn, yn ogystal â data ar sut mae ein cleifion yn parhau i ddefnyddio ein gwasanaethau yn CIGC ac Ysbyty Athrofaol Cymru, i lywio sut rydym yn mynd ati i weithredu ein gwasanaethau wrth symud ymlaen ac yn benodol a yw gwasanaethau'n parhau i redeg yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae amserlen y sesiwn galw heibio fel a ganlyn:

Sesiwn 1) **wythnos yn dechrau 20 Tachwedd** - Ar-lein

Include timings & joining info

Sesiwn 2) **wythnos yn dechrau 27 Tachwedd** - Wyneb yn wyneb

Include date/time/location

Sesiwn 3) **wythnos yn dechrau 4 Rhagfyr** - Ar-lein

Include timings & joining info

Mae cyfeiriad llawn y clinig newydd fel a ganlyn:

Canolfan Iechyd Genomig Cymru

Parc Busnes Cardiff Edge

Rhodfa Longwood

Yr Eglwys Newydd

CAERDYDD

CF14 7YU